Ministry of Justice

# Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth i'r Alwad am Dystiolaeth ar y Gyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol:

## Archwilio'r opsiwn o gyfradd ddeuol/lluosog

11 Medi 2023

Ministry of Justice

# Crynodeb o Ymateb y Llywodraeth i'r Alwad am Dystiolaeth ar y Gyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol:

## Archwilio'r opsiwn o gyfradd ddeuol/lluosog

**Crynodeb o'r ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae copïau o'r Alwad am Dystiolaeth a'r ymateb llawn ar gael yn:**

**https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-exploring-the-option-of-a-dualmultiple-rate**

# Ynglŷn â'r ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth

| | |
|---|---|
| **At:** | Pob rhanddeiliad sydd â diddordeb yn y broses o bennu'r gyfradd ddisgownt anafiadau personol.<br><br>**Cyhoeddwyd ar:** 11 Medi 2023 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am gopïau mewn fformat amgen) at:** | **Personal Injury Policy Team**<br>**Civil Justice & Law Policy**<br>Post point 5.23<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>Ffôn: 020 3334 3157<br><br>E-bost: Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk |

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **3**

**Dadansoddiad Ystadegol o'r Ymatebion** **4**

**Materion Cydraddoldeb** **5**

**Crynodeb a'r Camau Nesaf** **7**

**Egwyddorion ymgynghori** **8**

**Rhestr o'r Ymatebwyr*** **9**

# Cyflwyniad

Ar 17 Ionawr 2023 cyhoeddodd y Llywodraeth Alwad am Dystiolaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd ddisgownt anafiadau personol (PIDR). Diben hyn oedd archwilio manteision ac anfanteision PIDR deuol/lluosog PIDR[1].

Yn ystod yr adolygiad diwethaf o PIDR yn 2019[2], paratôdd Actiwari'r Llywodraeth ddadansoddiad manwl[3] i hysbysu'r penderfyniad pennu cyfradd ac, fel rhan o'i waith, edrych ar effeithiau posibl defnyddio cyfradd ddeuol i ganlyniadau ymgeiswyr.

Edrychodd ei ddadansoddiad yn edrych ar sut y gellid pennu'r gyfradd ddisgownt i ddarparu canlyniadau tecach i fwy o hawlwyr. Roedd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd o'r farn bod hyn yn opsiwn buddiol, ond roedd hefyd o'r farn bod angen gwneud mwy o waith i nodi strwythur priodol ac effaith ymarferol cyflwyno PIDR deuol neu luosog yng Nghymru a Lloegr a phenderfynodd i beidio mynd ar drywydd y mater hwn ar y pryd.

Fodd bynnag, er nad oedd y sylfaen dystiolaeth a oedd ar gael yn 2019 yn ddigonol i gyfiawnhau newid o'r fath ar y pryd, fe ymrwymodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd i geisio safbwyntiau a thystiolaeth ychwanegol cyn yr adolygiad nesaf o'r gyfradd yn 2024. Roedd yr Alwad am Dystiolaeth hon yn gweithredu'r ymrwymiad hwn a chroesewir cyflwyniadau bob rhanddeiliad.

Daeth yr Alwad am Dystiolaeth hon i ben ar 11 Ebrill 2023 ac mae'r dystiolaeth a'r sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid wedi'u hadolygu a'u crynhoi yn y ddogfen ymateb. Fel y nodwyd eisoes, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r ddogfen hon ar gyfer creu safbwynt polisi ar y cwestiwn i gyflwyno PIDR deuol/lluosog ai peidio.

Fodd bynnag, sefydlwyd Panel Arbenigol annibynnol yn ddiweddar i gynghori'r Arglwydd Ganghellor fel rhan o'r adolygiad nesaf o PIDR y mae'n rhaid ei ddechrau erbyn 15 Gorffennaf 2024. Bydd pob ymateb a dderbynnir mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth yn cael eu trosglwyddo i'r Panel hwn iddynt eu hystyried cyn yr adolygiad nesaf o PIDR.

Diben y ddogfen ymateb yw crynhoi'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth ar y mater pwysig hwn a darparu manylion pellach ar y camau nesaf mewn cysylltiad ag ystyried PIDR deuol/lluosog.

**Tîm Polisi Anafiadau Personol**
**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

---

1 https://www.gov.uk/government/consultations/personal-injury-discount-rate-exploring-the-option-of-a-dualmultiple-rate

2 https://www.gov.uk/government/consultations/setting-the-personal-injury-discount-rate-call-for-evidence

3 https://www.gov.uk/government/consultations/setting-the-personal-injury-discount-rate-government-actuarys-advice-to-the-lord-chancellor

**11 Medi 2023**

# Dadansoddiad Ystadegol o'r Ymatebion

Cyhoeddwyd Galwad am Dystiolaeth ar 'Archwilio'r opsiwn o gyfradd ddeuol/luosog' ar 17 Ionawr 2023 a gynhaliwyd am 12 wythnos, gan ddod i ben hanner nos 11 Ebrill 2023. Ceisiwyd tystiolaeth a safbwyntiau ar sut y gellid cymhwyso cyfradd ddeuol neu luosog ar gyfer pennu cyfradd ddisgownt anafiadau personol (PIDR), a beth fyddai effeithiau system o'r fath.

Roedd yr Alwad am Dystiolaeth wedi'i hanelu at bobl â diddordeb mewn hawliadau uchel eu gwerth am anafiadau personol yng Nghymru a Lloegr a sut mae'r iawndal a ddyfernir yn cael ei fuddsoddi. Fodd bynnag, croesawyd a derbyniwyd safbwyntiau gan randdeiliaid eraill.

Derbyniwyd cyfanswm o **65** o sylwadau gan ystod eang o randdeiliaid, gyda **21** o ymatebion yn cael eu derbyn drwy holiadur ar-lein a **44** ymateb arall drwy e-bost i fewnflwch Personal-Injury-Discount-Rate@justice.gov.uk. O'r rhain, roedd **5** ymateb yn gyflwyniadau unfath gan swyddfeydd gwahanol yr un cwmni cyfreithiol.

Atebodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid rai neu bob un o'r cwestiynau a holwyd yn uniongyrchol, ond derbyniodd **13** o'r ymatebwyr i ddarparu sylwadau cyffredinol drwy ymateb/llythyr unigol.  Yn ogystal, ni ddarparodd pob rhanddeiliad dystiolaeth i gefnogi eu cyflwyniadau a/neu eu barn.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd fesul sector:

| Sector | Ymatebion a dderbyniwyd | % o gyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd |
|---|---|---|
| Actiwarïaid a Grwpiau Cynrychioli | 3 | 5% |
| Bargyfreithwyr/Siambrau | 4 | 6% |
| Cyfreithwyr Hawlwyr a Grwpiau Cynrychioli | 11 | 17% |
| Grwpiau Cynrychioli Traws-sector | 3 | 5% |
| Cyfreithwyr Diffynyddion a Grwpiau Cynrychioli | 8 | 12% |
| Y Sector Meddygol a Grwpiau Cynrychioli | 4 | 6% |
| Economegwyr | 2 | 3% |
| Darparwyr Gwasanaethau Ariannol | 6 | 10% |
| Yswirwyr, Ail-yswirwyr a Grwpiau Cynrychioli | 23 | 35% |
| Arall | 1 | 1% |
| **Cyfanswm** | **65** | **100%** |

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd ac a ddarparodd dystiolaeth neu a rannodd eu harbenigedd, profiad a'u mewnwelediadau i'r cwestiynau a holwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth hon. Mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd wedi'u dadansoddi ac maent wedi'u crynhoi yn yr ymateb hwn.

# Materion Cydraddoldeb

1. Y mater craidd yn yr Alwad am Dystiolaeth hon oedd archwilio'r opsiwn i fabwysiadu PIDR deuol/lluosog. Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

   - ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf.
   - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt)
   - meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt)

2. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n rhaid i Weinidogion yr Adran roi "sylw dyledus" i'r naw "nodwedd warchodedig" a nodir yn y Ddeddf, sef: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth. Felly, roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â chyflwyno PIDR deuol/lluosog ac roedd yn galw am safbwyntiau ymatebwyr ar y mater hwn.

3. Darparodd **37** ymatebwr gyflwyniadau mewn cysylltiad â materion cydraddoldeb. Derbyniwyd ymatebion gan **2** actiwari, **11** cwmni cyfreithiol/cyrff cynrychioli hawlwyr (gan gynnwys **5** ymateb unfath gan un cwmni cyfreithiol), **5** cwmni cyfreithiol/corff cynrychioli diffynyddion **1** economegydd, **5** darparwr gwasanaethau ariannol, **12** yswiriwr/ail-yswirwyr/cyrff cynrychioli ac **1** arall.

4. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn cysylltiad â materion cydraddoldeb (noder bod y sectorau a restrir yn erbyn pob pwynt yn dangos bod un neu fwy o ymatebwyr o'r sector hwnnw wedi gwneud y sylwad hwnnw ac nid yw'n golygu bod pob cynrychiolydd o'r sector hwnnw'n rhannu'r un safbwyntiau):

   - Dylid trin pob hawlydd yn gyfartal ond gallai dull sy'n seiliedig ar hyd wahaniaethu yn erbyn y rhai ag anableddau mwy difrifol (Actiwari, Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswirwyr);

   - Ni fydd unrhyw effeithiau ychwanegol ar gyfer unrhyw grŵp nodweddion (Cyfreithwyr Diffynyddion);

- Mae gan hawlwyr y nodwedd gyffredin o fod yn anabl yn gyffredinol oherwydd eu hanafiadau a byddai newid methodoleg y PIDR yn creu enillion a cholledion ar draws yr holl hawlwyr (Economegwyr);
- Po hiraf yw disgwyliad oes yr hawlydd, y mwyaf yw'r iawndal a ddyfernir, a'r mwyaf yw'r risg buddsoddi ychwanegol. Felly, mae'n debyg mai'r hawlwyr â'r anghenion gofal mwyaf yw'r rhai sy'n cael eu niweidio fwyaf gan eu hanafiadau (Economegwyr);
- Bydd ymagwedd rhy gymhleth yn golygu y bydd pob hawlydd yn ei chael hi'n anoddach deall y broses ond y rhai â gallu cyfyngedig fydd yn cael eu heffeithio fwyaf (Yswirwyr);
- Os bydd iawndal am golli enillion yn y dyfodol yn cael ei gysylltu i brisiau yn hytrach na'r mesur chwyddiant enillion, gallai hyn wahaniaethu yn erbyn llawer o'r hawlwyr ag anafiadau difrifol, y gallai eu hanafiadau olygu eu bod yn anabl (Cyfreithwyr Diffynyddion);
- Mae hawlwyr yn cael eu cynrychioli'n gyfreithiol felly ni fydd unrhyw newid yn cael unrhyw effaith (Yswirwyr);
- Bydd cyfradd ddeuol sy'n seiliedig ar hyd yn fuddiol i hawlwyr tymor byr/y rhai â disgwyliad oes byrrach, gyda'r ail yn fwy cyffredin ymhlith hawlwyr hŷn (Yswirwyr);
- Mae posibilrwydd y bydd gan y rhai â'r anafiadau mwyaf difrifol o leiaf un nodwedd warchodedig a bydd newid i'r PIDR yn cael effaith andwyol arnynt (Cyfreithwyr Diffynyddion).

# Crynodeb a'r Camau Nesaf

5. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o'r Alwad am Dystiolaeth wedi'i hadolygu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'r ddogfen ymateb yn darparu crynodeb manwl o'r cyflwyniadau a ddarparwyd gan randdeiliaid. **Fel y nodwyd yn flaenorol, ni fydd y Llywodraeth yn argymell safbwynt polisi nac yn gwneud penderfyniad o ran a ddylid cyflwyno PIDR deuol/lluosog ar yr adeg hon.**

6. Cyflwynir yr holl gyflwyniadau a'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymarfer Galwad am Dystiolaeth i Banel Arbenigol PIDR[4], y mae'r Ddeddf Iawndal, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Atebolrwydd Sifil, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynghori'r Arglwydd Ganghellor ar yr adolygiad o'r raddfa. Trosglwyddir yr ymatebion a'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn llawn i'r panel a fydd yn eu hystyried cyn darparu cyngor i'r Arglwydd Ganghellor.

7. Fodd bynnag, defnyddir yr adborth a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth i hysbysu'r opsiynau sydd ar gael i'r Arglwydd Ganghellor fel rhan o'r adolygiad nesaf o PIDR sydd, yn unol â'r darpariaethau statudol yn y Ddeddf Iawndal, i'w gynnal erbyn 15 Gorffennaf 2024. Cyhoeddir gwybodaeth bellach mewn cysylltiad â'r adolygiad hwn maes o law.

**Y WEINYDDIAETH GYFIAWNDER**
**11 MEDI 2023**

[4] Ar ôl cwblhau ymarfer penodi trylwyr, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ar 27 Mehefin 2023 aelodau Panel Arbenigol statudol PIDR. Mae gwybodaeth bellach am waith y Panel Arbenigol a'r adolygiad nesaf o PIDR ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/personal-injury-discount-rate

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

# Rhestr o'r ymatebwyr*

7 Bedford Row

Admiral

Adroit Financial Planning

Advantage Insurance

Ageas Insurance

Allianz

American International Group UK Ltd.

Arch Re

Aviva

Axa
Browne Jacobson LLP
Capsticks Solicitors LLP
Chase Devere
Clyde & Co
Consultant

Cymdeithas Bargyfreithwyr Anafiadau Personol

Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Clinigol

Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol

Cymdeithas Gwarchod Meddygol

Cymdeithas Sefydliadau Cefnogi Defnyddwyr

Cymdeithas Tanysgrifennu Ryngwladol

Cymdeithas y Gyfraith

Cymdeithas Yswirwyr Prydain

Gallagher Re

Great Lakes

Hilton Sharp & Clarke Forensic Accountants

Hugh Gregory

Irwin Mitchell

Kennedys

Keoghs

LV=

Lyons Davidson Solicitors

DAC Beachcroft
Deka Chambers
Direct Line Group
DWF
Esure
Everest
Exchange Chambers
Frenkel Topping
Fforwm Cyfreithwyr Anafiadau Cymhleth
Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant

Munich Re
NFU Mutual
NHS Resolution
Personal Financial Planning
RSA
Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid
Somers
St John's Chambers
Stewarts Law
Swyddfa'r Yswirwyr Moduro
Thompsons Solicitors LLP
Undeb Amddiffyn Meddygol a Deintyddol yr Alban
Undeb Amddiffyn Meddygol
Zurich

*Mae'r rhestr yn cynnwys y sefydliadau a ymatebodd yn unig – ni enwir unrhyw randdeiliaid unigol a ymatebodd yma

OGL

© **Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Agored y Llywodraeth v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Ble yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deilydd yr hawlfraint dan sylw.